*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ac Ymgysylltu (07385401877)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 9FED TACHWEDD, 2023** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 7 TACHWEDD 2023, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 05.10.2023 yn rhai cywir .

**5 - 8**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

**5. CAIS RHIF: 22/1252**

Defnyddio tir ar gyfer hyfforddiant tactegau heddlu allanol gan gynnwys offer tactegau allanol, mynediad ar gyfer cynnal a chadw, tirweddu, peirianneg a gwaith seilwaith (mewn cysylltiad â chyfleuster tactegau heddlu arfaethedig ar safle cyfagos ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn amodol ar gais cynllunio ar wahân i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a gwybodaeth ategol ar 09/08/23, 18/08/23 a 21/08/23).
**TIR TUA'R DE O HEOL FELINDRE, PENCOED LLANHARAN**

**9 - 34**

**6. CAIS RHIF: 23/0945**

Llwybr Teithio Llesol Rhondda Fach - Cam 2
**HEN REILFFORDD FWYNAU O HEOL YR ORSAF, MAERDY, I**

**GYFEIRNOD GRID SS 98809 97765**

**35 - 46**

7. **CAIS RHIF: 23/0979**

Decin pren yng nghefn yr eiddo.
**65 HEOL-Y-COED, PONT-Y-CLUN, PONT-Y-CLUN, CF72 9AT**

**47 - 52**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

8. **CAIS RHIF: 22/1103**

Dymchwel yr adeilad presennol a chodi becws masnachol unllawr gyda chyfleuster gyrru drwodd (defnydd cymysg A1/A3), maes parcio ceir a beiciau newydd ac wedi'i aildrefnu, seilwaith gwyrdd a glas, storfa finiau, a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Llythyr Atodol ynghylch Llifogydd 11/11/22) (Derbyniwyd Llythyr Ategol Ychwanegol ynglŷn â Llifogydd 19/05/23)
**PLOT G5, MAIN AVENUE, YSTAD DDIWYDIANNOL TREFFOREST, PONTYPRIDD**

**53 - 74**

9. **CAIS RHIF: 23/0969**

Codi 3 annedd hunan-adeiladu pwrpasol sydd bron yn ddi-garbon o fewn cwrtil yr annedd presennol a gwaith cysylltiedig.
**TŶ DEWI SANT, HEOL CASTELLAU, BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2RA**

**75 - 86**

**CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

10. **CAIS RHIF: 22/1261/10**

Newid defnydd i droi sied gwartheg yn uned breswyl. (Derbyniwyd Asesiad ac Arolygon Clwydo Ystlumod rhagarweiniol ar 17/8/22)
**Gorllewin Caerlan, Stryd yr Ysgol, Llantrisant, Pont-y-Clun, CF72 8EN**

**87 - 100**

11. **CAIS RHIF: 22/1163/10**

Datblygu pedwar fflat, maes parcio, gwaith tirlunio a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 04/08/23)
**TIR ODDI AR HEOL SANT IOAN, TONYREFAIL**

**101 - 122**

**12. CAIS RHIF: 23/0896/10**

Dymchwel estyniadau presennol i gefn ac ochr yr adeilad, adeiladu estyniad deulawr i ochr yr adeilad ac estyniad llawr cyntaf. Mae hefyd yn cynnwys newid strwythur yr eiddo presennol a chynnal gwaith adnewyddu cyffredinol (Derbyniwyd cynllun lleoliad safle diwygiedig ar 13/09/2023)

**Byngalo Cartref, Lôn Hobbs, Hirwaun, Aberdâr, CF44 9BU**

**123 - 136**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**13. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 09/10/2023 – 27/10/2023

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**137 - 148**

**14. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**
**Cylchrediad: -**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd W Lewis)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd A Dennis, Y Cynghorydd S Emanuel,
Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd M Powell,
Y Cynghorydd J Smith, Y Cynghorydd L A Tomkinson and Y Cynghorydd R Williams

Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd